

## Cystadleuaeth 385 : Blwyddyn 9 - Ymson 'Arwr'

### Beirniad – Huw Carrod

Derbyniais wythdeg-dau ymson ar y testun Arwr. Enwogion o'r gorffennol a'r presennol oedd arwyr y mwyafrif - yn wŷyr a gwragedd, yn eu plith Winston Churchill, Martin Luther King, Malala Yousafzai, Mari Jones, Alan Turin, J.K.Rowling, Anne Frank ac Ellis Evans (Hedd Wyn). O'r meysydd chwarae ymddangosodd Usain Bolt, Hadleigh Parkes, Gareth Bale Lionel Messi.

Ymhlith yr arwyr eraill 'roedd aelodau o'r gwasanaethau brys - yn barafeddygon, dynion tan a.y.y.b. a brofodd eu gwrhydri mewn trychinebau megis Chernobyl, 9/11 a chyngerdd Ariana Grande ym Manceinion yn 2017 yn ogystal â llawfeddygon a nyrsis ein hysbytai.

Aelodau'r teulu oedd y gweddill yn frodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau - mewn ambell i achos wedi achub bywyd trwy arhegu aren i aelod agos o'r teulu.

Prin oedd yr hiwmor yn yr ymsonau - diolch i *Hogan o Pesta* am rannu ei phrofiadau doniol yng ngwisg 'Cyw' ac i *Blodeuwedd* am rannu ei meddyliau wrth lunio traethawd mewn arholiad ar y testun.

Llwyddodd y mwyafrif i ymateb i her ymson -cyfleu teimladau, meddyliau a syniadau'r unigolyn, er i rai canolbwyntio'n ormodol ar y naratif ar draul ymateb yr arwr i'r digwyddiadau.

Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) a rhai o'i gymrodyr oedd dewis tri deg chwech o'r cystadleuwyr a chafwyd ymsonau clodwiw gan y mwyafrif - yn adlewyrchu gwybodaeth ein disgyblion am y gwron o Drawsfynydd-ei ddiddordebau a'i ddaliadau, yn ogystal â'r amodau erchyll yn y ffosydd ar y 'Western Front'. Mae'n amlwg bod y ffilm 'Hedd Wyn' wedi dylanwadu ar gynnwys nifer o'r ymsonau gan iddynt ddilyn yn agos naratif y ffilm. Cawsom ddisgrifiadau byw a chyffyrddiadau cofiadwy gan amryw o'r tri deg chwech, ond eu gwendid mwyaf oedd y tueddiad i ail- adrodd yr hen ystrydebau cyfarwydd a berthyn i'r hanes.

Cawsom gyffyrddiadau gafaelgar gan *Swan*, *Stradros*, *Winnie Pooh*, *Mwnici Bach Bleddyn* a *Hedyn*. Bu i *John* ddatgelu teimladau Hedd Wyn i ryfel yn gynnil ac effeithiol yn ei arddull hoffus ac yn yr un modd cawsom ddehongliad aeddfed o deimladau tebygol y bardd wrth iddo baratol i wynebu ei dynged gan *Meinir*. Cyfansoddodd *Cymraes* ei hymson ar ffurf dyddiadur a cawsom fanylion ei orchestion eisteddfodol cyn bwrw ati ar awdl Eisteddfod Penbedw. Hoffais yn fawr ymson *Hedd Wyn* wrth i'r arwr

fynegi ei ofnau a'i amheuon wrth baratoi i fynd i ryfel ac ymadael a'i deulu a'i gariad Jini Owen. Fel yn achos nifer o'r cystadleuwyr eraill llwyddodd *Hedd Wyn* i gyfleu'r tensiwn yn y ffos wrth i'r milwyr baratoi am chwiban y swyddog i fynd 'dros y top'. Gwendid *Hedd Wyn* oedd y cyflwyniad - amryw o wallau yn yr iaith y dylid wedi eu cywiro cyn cyflwyno'r sgrïpt derfynol

Winston Churchill oedd arwr *Owain*- ymson deallus a diddorol wrth i'r prif weinidog annerch y dorf yn Whitehall ar Fai 8fed ( diwrnod B-E). Martin Luther King oedd dewis *Liliwen (61)* - mae'r arwr yn adlewyrchu o'i gell ar y digwyddiadau erchyll a dirdynnol y bu ef yn dyst iddynt -yn mynd dan groen y cymeriad ac yn cyflwyno ymson didwyll a phwerus - ymhlith y goreuon. Araith Malala Yousafzai wrth dderbyn gwobr heddwch Nobel oedd dan sylw gan *Seren* ac *Elsi Wyn* - y ddwy yn wybodus iawn am yrfa Malala a'i hymdrechion i ddileu rhagfarn yn erbyn addysg i ferched - gormod o wallau iaith gan *Seren* ac arddull a mynegiant *Elsi Wyn* yn llafurus mewn manau.

Er i *Gerddoriaeth* ddewis arwr cymwys yn Anne Frank method ei chyflwyniad argyhoeddi - y stori braidd yn ddrylyd a'r mynegiant yn wallus. Yr enwog Mari Jones oedd dewis *Mari* - cawsom flas ar y daith 'hanesyddol' i'r Bala - cynnal diddordeb wrth ddisgrifio'r daith ond fawr ddim am ei chymhellid i wneud y daith. Mae'r daith yn un llwyddiannus, ond onid Mari ei hun yw'r arwr ac nid Thomas Charles!

Ymson grymus, ddramatig a chyfoethog ei hiaith gan *Ammas* - dirnadaeth ddofn o yrfa a ffawd drist yr athrylith Alan Turing - ol ymdrech ar y delweddau hwnt ac yma ond ymson didwyll a wnaeth argraff -yn uchel yn y gystadleuaeth. Ymson pwerus a didwyll gan *Sianiflewog* am deimladau lesu Grist wrth iddo gario'r groes i Golgotha. Mynegiant aeddfed gan berson o argyhoeddiad cryf - angen cywiro a thrwsio'r copi ar gyfer y gystadleuaeth er hynny.

Cawsom ymsonau safonol a chredadwy gan arwyr y meysydd chwarae - yn eu plith Usain Bolt (*Bollten*), Gareth Bale (*Gareth Bale*), Hadleigh Parkes (*Carotsen*) a Lionel Messi (*Llew*). Cyflwyniadau yn llawn cyffro gan ymgeiswyr oedd yn adnabod eu harwyr yn dda -sylwebyddion radio a theledu'r dyfodol yn ddi-os! Stori am frwydr bersonol yr arwr i gystadlu yn y gemau Paralympaidd sydd gan *Olympig*, wedi iddo/iddi golli coes mewn damwain car. Ymson gryf yn llawn emosiwn a buddugoliaeth wedi blynyddoedd o frwydro.

Mae damweiniau a thrychinebau erchyll yn aml yn arwain i weithredoedd arwrol gan unigolion - bu hyn yn wir yn achos amryw o'r cystadleuwyr - *Gruff* (gwr tan), *Eira* (ci achub yn yr Alpau) , *Swigen* (goroeswr 9/11), *Wmffra*

(gweithiwr yn atomfa Chernobyl) a *Gwenynen* ( gwr ambiwlans yng nghyngerdd Ariane Grande ym Manceinion 2017).

Amrywiol

Ymson wreiddiol a difyr gan *Cymu*- mae'r awdur yn gofyn 'beth yw arwr' ac yna yn chwilio am rinweddau/nodweddion arwr ynddo ef eu hun ac yn datgeli i'r darlennydd ei gryfderau a'i wendidau personol. Ymson ddadansoddol ac unigryw wnaeth hawlio fy sylw.

Cymeriad mewn gornest gem ar y cyfrifiadur oedd arwr '*Y Chwaraewr*'- maes na wn i fawr ddim amdano! Ond mae gan yr awdur allu i hoelio sylw ac i gyfleu cyffro gwrthdaro'r gwrthwynebwyr yn hynod effeithiol.

Stori am fwlio o fewn yr ysgol sydd gan *Lili Wen (47)* - mynegiant yn wallus mewn manau a'r ymson yn hirwyntog. Ymson drist gan *Beca (Liliwen D1228)* - claf ar ei gwely angau a'i ffrindiau wedi troi cefn arni- mynegiant yn gloff mewn manau a'r testun yn siŵr o ddiflasu'r darlennydd. Rhannu'r wefr o ganu mewn band ar lwyfan byw wna *Chez Whizz* yn ddigon hwylus tra bod *Rhymni ac Iar Fach yr Haf* yn ymdrin â pherthynas unigolion a'i gilydd - digon o brawf gallu ysgrifennu creadigol yma - amau pa mor berthnasol i'r testun oedd yr ymsonau.

Hoffais ymdrech *Beti* - dawn yma i ddweud stori yn hwylus a diymdrech. Hwyrach mai stori fer dda yw hon yn hytrach nac ymson?

Mam oedd arwr ymson *Brawd Mawr* wrth iddi achub bywyd Hannah ei merch trwy anrhegu un o'i harennau. Ymson wedi ei chynllunio'n ofalus yn llawn teimlad a dwyster . Defnydd da o ddeialog i gyfleu'r ddrama - gwnaeth yr ymson hon gryn argraff arnaf - ymhlith y goreuon yn y gystadleuaeth

Ymson yn llawn cyffro gan *Gwallt cyrliog* - gwr a ystyriai ei hun yn ddiwerth ac isel ei hunan-barch yn troi yn arwr wrth achub bywyd un o'i ymosodwyr - arddull ystwyth a mynegiant craff - creu awyrgylch thensiwn yn yr ymson.

Teifi'r ci sy'n siarad yn ymson *Llinos Werdd*- mae'n son am ei brofiadau yn amddiffyn eiddo ei berchennog rhag cath drws nesa' - dawn dweud stori - arddull gynnill a naturiol - wedi ei gosod yn uchel yn y gystadleuaeth. Mae'r un peth yn wir am ymgais *Cas Pensiliau* - ymson mewn dwy ran - 'Gar Gwych' - arwr 'stereo-type' y ffilm a'r comig yn 'brolio' am ei allu a'i orchestion sy'n siarad yn y rhan gyntaf (arwr rhan amser); darlun go-wahanol o arwr a gawn yn yr ail ran - Mam (arwr llawn amser) sy'n gweithio nos a

dydd er lles ei phlant - hi yw yr arwr go iawn - a'i henw - ' Alaw Ardderchog' - ymson gwreiddiol a chogleisiol.

Yr awdur llyfrau plant J.K.Rowling oedd arwr ymson *Dawnswraig*. Mae'r mynegiant a'r arddull yn hynod o syml ac yn mynnu sylw'r darllenydd. Cawn rannu syniadau'r awdur wrth iddi eistedd mewn caffi yn gwarchod ei merch fach Jessica. Mae'r ymson wedi ei chynllunio'n ofalus a chawn gipolwg hyfryd ar sut mae syniadau am gymeriadau i'w nofel yn datblygu. ...' mae'r stori a'r syniadau yn llifo fel dŵr ar ôl storm nawr!' Mynegiant hyfryd a diymdrech - pleser ei darllen.

Heb os *Hogan o Pesta* oedd eiddo'r ymson mwyaf gwreiddiol a doniol yn y gystadleuaeth wrth iddi ymddangos ar lwyfan S4C ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng ngwisg Cyw. Mae'r sioe yn mynd yn hwylus tan i bry' copyn ddechrau dringo i fyny coes Cyw, ac yna mae'r helynt yn cychwyn! Hiwmor afiaethus mewn iaith lafar iach. Cyflwyniad penigamp a fu'n bleser i'w ddarllen!

Ymson am arwr a gafwyd gan *Swyn* - yr arwr yw ei thaid sy'n dioddef o gancr. Hoffais ei harddull o'r cychwyn wrth iddi rannu ei theimladau a'i phryderon i'r newyddion trallodus. Mae'r ymson yn llifo'n ddiymdrech a'r mynegiant yn ddidwyll a thrawiadol ac yn mynnu sylw'r darllenydd. Dyma'r ymson a gafodd yr argraff fwyaf arnaf yn y gystadleuaeth - triniaeth sensitif gan berson ifanc o bwnc anodd.

Mae ymsonau *Hogan o Pesta* a *Swyn* yn gwbl wahanol o ran eu cynnwys- y ddwy er hynny wedi taro'r nod. O ychydig mae *Swyn* yn mynd a'r wobr gyntaf, *Hogan o Pesta* yr ail a *Dawnswraig* y trydydd am ymson J.K.Rowling.